



## ADRAN 7

### 7. CYLLID, CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL

#### 7.1 RHEOLAETH ARIANNOL

7.1.1 Bydd materion ariannol y CBC yn cael eu rheoli yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

#### 7.2 CONTRACTAU

7.2.1 Bydd pob contract a lunnir gan y CBC yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

#### 7.3 CAMAU CYFREITHIOL AC ERAILL

7.3.1 Mae'r Swyddog Monitro wedi'i awdurdodi i sefydlu, amddiffyn neu gymryd rhan mewn unrhyw gamau cyfreithiol: yn cynnwys camau gan y llys; Tribiwnlysoedd, Cyflafareddu ac/neu Fforymau sy'n ymwneud â datrys anghydfod; maent hefyd wedi'u hawdurdodi i gyfarwyddo Cwnsel, ymgysylltu â thystion arbenigol a gwneud yr holl bethau eraill i hwyluso'r dull yr ymgwymerir ag achosion yn enw'r CBC; gan gynnwys, fel y pennir yn briodol, setlo a chyfaddawdu camau gweithredu fel arall (p'un a ydyw wrth gynnal achos llys, cyn cyflwyno achos llys neu ddatrys unrhyw gwynion Ombwdsmon).

7.3.2 Mae'r Swyddog Monitro yn Gyfreithiwr i'r CBC, neu unrhyw ran ohono, felly mae'r holl achosion a chamau llys yn cael eu cyflwyno yn eu henw a'r holl gynrychiolaeth yn cael ei drefnu ganddynt.

7.3.3 Yn ogystal, mae'r Swyddog Monitro wedi'i awdurdodi i gyfarwyddo Cwnsel i roi cyngor i'r CBC ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau a chynrychioli'r CBC mewn Ymchwiliadau (o unrhyw natur) lle mae'n pennu bod gwneud hynny er budd i'r CBC.

#### 7.4 AWDURDODI NEU LOFNODI DOGFENNAU

7.4.1 Lle mae'n angenrheidiol ac yn briodol i unrhyw ddogfen gael eu hawdurdodi neu eu llofnodi mewn perthynas ag unrhyw fater ar ran y CBC, neu unrhyw ran ohono, bydd y Prif Weithredwr, y Swyddog A151 neu'r Swyddog Monitro yn awdurdodi neu'n llofnodi fel y "Swyddog Priodol", oni bai bod unrhyw ymddeddfiad yn awdurdodi neu'n gofyn



fel arall, neu bod y CBC wedi rhoi'r awdurdod gofynnol i berson arall, i ddilysu neu lofnodi unrhyw ddogfen.

## 7.5 SELIO A GWEITHREDU DOGFENNAU

- (a) Bydd gan y Swyddog Monitro awdurdod i osod Sêl Gyffredin a gweithredu dan Sêl unrhyw weithred neu ddogfen.
- (b) Bydd gan y Swyddogion y cyfeirir atynt uchod awdurdod i weithredu unrhyw weithred neu ddogfen nad oes ei hangen yn ôl y gyfraith i fod dan sêl, sy'n angenrheidiol i effeithio **penderfyniadau'r CBC**.
- (c) Gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach gan y personau enwebedig.
- (d) Bydd unrhyw gofnod o sêl pob gweithred neu ddogfen y mae'r Sêl Gyffredin wedi'i gosod arni yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ac sydd wedi'u rhifo yn eu trefn mewn llyfr i gael ei ddarparu i'r diben hwnnw.